Cyllid &
Thollau EF

# Trosglwyddiad Lwfans Priodasol

## Ynglŷn â'r ffurflen hon

Mae Lwfans Priodasol yn eich galluogi chi i drosglwyddo 10% o'ch Lwfans Personol i'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil.

Mae gwneud cais ar-lein yn gyflym ac yn hawdd, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Lwfans Priodasol'. Fodd bynnag, darllenwch y ffurflen hon os na allwch wneud cais ar-lein. I gael nodiadau ar sut i lenwi'r ffurflen hon, darllenwch yr adran 'Yr hyn i'w wneud nawr' ar dudalen 3.

### Sut i wirio os allwch wneud cais

Gallwch elwa o Lwfans Priodasol os yw'r canlynol i gyd yn gymwys:

- rydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- nid ydych yn talu Treth Incwm, er enghraifft, mae'ch incwm yn is na'ch Lwfans Personol - i gael rhagor o wybodaeth am Lwfans Personol, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Lwfans Personol"
- os yw'ch partner yn talu Treth Incwm ar y gyfradd sylfaenol, neu ar y gyfradd gychwynnol, sylfaenol neu ganolradd os yw'n trethdalwr yn yr Alban

Ni allwch hawlio Lwfans Priodasol os ydych yn byw gyda'ch gilydd ac nad ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

I wirio eich bod yn gymwys a faint gallwch ei arbed, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Lwfans Priodasol'.

Os cawsoch chi neu eich partner eich geni cyn 6 Ebrill 1935, efallai y byddwch yn elwa mwy fel pâr drwy wneud cais am Lwfans Pâr Priod yn lle hynny. Ni allwch gael Lwfans Priodasol a Lwfans Pâr Priod ar yr un pryd. I gael rhagor wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Married Couple's Allowance'.

### Sut mae Lwfans Priodasol yn gweithio

Byddwn yn ôl-ddyddio'ch Lwfans Priodasol i ddechrau'r flwyddyn dreth (6 Ebrill).

Bydd 10% o'ch Lwfans Personol yn trosglwyddo'n awtomatig i'ch partner bob blwyddyn hyd nes eich bod yn canslo Lwfans Priodasol.

Mae'n rhaid i chi ganslo Lwfans Priodasol os yw'ch amgylchiadau'n newid ac nid ydych yn gymwys mwyach - er enghraifft, os oes newid yn eich incwm neu mae'ch perthynas yn dod i ben. Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Lwfans priodasol os yw'ch amgylchiadau'n newid'.

### Ôl-ddyddio'ch hawliad

Gallwch ôl-ddyddio'ch hawliad am hyd at 4 blynedd dreth yr oeddech yn gymwys i gael Lwfans Priodasol. Bydd bil treth eich partner yn cael ei ostwng am y blynyddoedd rydych yn eu hôl-ddyddio.

## 1 Yr un â'r incwm isaf (manylion y trosglwyddwr)

**Cyfenw neu enw teuluol**

**Enwau**

**Rhif Yswiriant Gwladol**

**Dyddiad geni** DD MM BBBB

**Dyddiad y briodas neu bartneriaeth sifil** DD MM BBBB

**Cyfeiriad**

**Cod post**

## 2 Yr un â'r incwm uchaf (manylion y derbynnydd)

**Cyfenw neu enw teuluol**

**Rhif Yswiriant Gwladol**

**Enwau**

**Dyddiad geni** DD MM BBBB

## 3 Y blynyddoedd treth rydych am hawlio ar eu cyfer

Gallwch hawlio ar gyfer y flwyddyn dreth bresennol a hyd at y 4 blwyddyn dreth flaenorol. Dylech wirio er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer bob blwyddyn. Gadewch unrhyw flwyddyn nad ydych am hawlio ar ei chyfer yn wag.

| Blwyddyn dreth (6 Ebrill i 5 Ebrill) |
|---|
| Enghraifft: 2023 i 24 |
| 2 0 _ _ to _ _ |
| 2 0 _ _ to _ _ |
| 2 0 _ _ to _ _ |
| 2 0 _ _ to _ _ |
| 2 0 _ _ to _ _ |

**Datganiad**
Rwyf i (yr un â'r cyflog isaf) am drosglwyddo 10% of fy Lwfans Personol i'm mhartner.

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB

## 4 Yr un â'r incwm uchaf (y derbynnydd) i'w lenwi

Os oes gennych hawl i ad-daliad, gall taliadau cael eu gwneud i chi neu i rywun arall ar eich rhan – gelwir hwn yn 'enwebai'.
**Dylech dim ond lenwi'r adran hon os ydych am i'r ad-daliad fynd i enwebai ar eich rhan.**
Bydd angen i bob enwebai sy'n weithiwr proffesiynol sy'n codi tâl am ei wasanaethau:

- bod wedi cofrestru ar Gyfrif Gwasanaethau Asiant (ASA) CThEF a rhoi ei Gyfeirnod yr Asiant (ARN)
- gwneud yn siŵr bod yr enw a rhoddir isod yn cyd-fynd â'i enw busnes sydd wedi'i gofrestru ar ASA er mwyn cael ad-daliad

**Nid oes angen i enwebai eraill rhoi ARN, rhowch enw, cyfeiriad llawn a chyfeirnod isod ynghyd a dyddiad a llofnod.**

**A ydych yn enwebu gweithiwr proffesiynol sy'n gweithredu ar eich rhan sy'n codi tâl am ei wasanaethau?**

Ydw ☐ Nac ydw ☐

**Cyfeirnod yr Asiant ar gyfer yr Enwebai**

Llythyren Rhifau

_ A R N _ _ _ _ _ _ _

**Enw'r enwebai**

**Cyfeirnod cwsmer yr enwebai, os yw'n briodol**
(Os oes cyfeirnod mewnol gan eich enwebai, nodwch ef yma. Ni all hwn fod yn Rhif Yswiriant Gwladol)

**Cyfeiriad yr enwebai**

**Cod post yr enwebai**

**Llofnod yr un â'r incwm uchaf (y derbynnydd)**

**Dyddiad** DD MM BBBB

## Os yw'ch partner wedi marw

Os yw'ch partner wedi marw yn ystod y 4 blynedd diwethaf, gallwch hawlio o hyd - ffoniwch ni ar 0300 200 1900.
Os mai'ch partner oedd yn ennill yr incwm lleiaf, bydd angen i'r person oedd yn gyfrifol am reoli ei faterion treth ein ffonio.

## Yr hyn i'w wneud nawr

Peidiwch ag anfon unrhyw waith papur ychwanegol gyda'r ffurflen hon. Rydym yn eich cynghori i gadw copi o'r ffurflen hon ar gyfer eich cofnodion eich hun. Mae'n bosibl bydd yn rhaid i ni ysgrifennu atoch yn gofyn am ragor o wybodaeth i gefnogi eich hawliad.

Cyn anfon y ffurflen hon atom, gwnewch yn siŵr o'r canlynol:

- bod yr un â'r incwm isaf wedi llenwi rhannau 1, 2 a 3 ac wedi llofnodi a dyddio'r datganiad yn rhan 3
- bod yr un â'r incwm uchaf (y derbynnydd) wedi llenwi, llofnodi a dyddio'r datganiad yn rhan 4 yn unig, os yw'r ad-daliad i'w wneud i enwebai neu trydydd parti. Sylwer: bydd angen i enwebeion sy'n weithwyr profeesiynol ac yn codi ffi am eu gwasanaethau ddefnyddio gwasanaeth llofnodion electonig uwch i gael llofnod yr un â'r incwm uchaf. Bydd llofnodion â llaw (llofnodion gwlyb) dim ond yn cael eu derbyn os yw'r trethdalwr wedi'i eithrio rhag y byd digidol gan CThEF cyn arwyddo'r enwebiad. Ni fydd angen i'r enwebeion eraill ddefnyddio llofnod electonig uwch.

Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi i:

Talu Wrth Ennill a Hunanasesiad
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
BX9 1ST

## Sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a bennir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, a hynny er mwyn gwneud y canlynol:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis asiantaethau neu adrannau eraill o'r llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i CThEF oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk a defnyddiwch y cyfleuster Chwilio i ddod o hyd i'r adran Deddf Diogelu Data.

## Siarter CThEF

Mae Siarter CThEF yn diffinio'r gwasanaeth a'r safonau ymddygiad y dylai ein cwsmeriaid eu disgwyl wrth ymwneud â ni.
I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy